YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 1.] IONAWR, 1921. [PRIS 3c.

.. CYNHWYSIAD. ..

AR ADEN FFYDD.
ODDIAR Y TWR.
HOMILI FER, &c.
Y PARCH. JOHN JONES, ABERDAR.
HANES CAPEL Y BRYN, CWRTNEWYDD.
THOMAS JEFFERSON.
PRIODASAU.
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul

Pris 3c. y mis ; drwy y *Post*, 3s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac chwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

"THE TRAINING OF MIND AND WILL"

By W. Tudor Jones, M.A., Ph.D.

CONTENTS :

Foreword by Dr. Alex Hill.
Chapter I. Introduction.
II. Need of Ability.
III. Knowing our own Mind.
IV. Observation, Attention, Concentration, Will-power, Memory.
V. The Three Levels of Mind—Perception, Association, and Reflection.
VI. The Four Sides of Life and their Cultivation—(*a*) The Civic Side ; (*b*) The Vocational Side ; (*c*) The Cultural Side ; (*d*) The Religious Side.

Price, 2/6. Postage, 3d.

Obtainable from—

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers - - -
& Provender Millers, - -
Merchants, - - - -
Wholesale Grocers, &c. &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] IONAWR 1921. [CYF. XXI. RHIF I.

AR ADEN FFYDD.

DECHREU BLWYDDYN.

i.

DAD tragwyddoldeb ! plygaf ger dy fron,
I geisio'th fendith ddechreu'r flwyddyn hon ;
Trwy blygion tywyll ei dyfodol hi,
Arweinydd anffaeledig, arwain fi.

ii.

Beth fydd fy rhan ar hyd ei misoedd maith,
Nis gwn, fy Nuw—ni fynnwn wybod chwaith ;
Ai hyfryd ddydd, ai nos dymhestlog ddaw,
Boddlonaf ond cael cyffwrdd â dy law.

iii.

Ffydd, Gobaith, Cariad—rhiniau pennaf gras,
Addurno f'oes tra'n teithio'r anial cras ;
Rho imi beunydd fyw'n d'oleuni Di,
Ddihenydd Sanctaidd, arwain, arwain fi.

iv.

Henaiddia'r greadigaeth, palla dyn,
Diflanna'r oesau hen o un i un ;
Er cilio pob peth, para'r un wyt Ti,
Y digyfnewid Dduw, O, arwain fi.

Y PARCH. T. J. PRITCHARD
(*Glan Dyfi.*)

ODDIAR Y TWR.

GOFUS gan yr ychydig oedd yn bresennol yng nghwrdd y bore ym Mwlchyfadfa yr haf diweddaf, am anerchiad diddorol Mr. Charles Strong, Llywydd yr *Unitarian Laymen's League* yn yr Unol Dalaethau. Y mudiad hwn, yn bennaf, oedd ei destyn, er iddo gyffwrdd a chwestiwn y *League of Nations*; a'i amcan oedd taenu gwybodaeth am dano, a deffro diddordeb ynddo, yn y wlad hon. Rhoddodd inni hanes ei darddiad, ei amcan (neu ei amcanion), a'i gynnydd o'i sylfaeniad hyd yn awr. Dyledus ydyw am ei fodolaeth i frwdfrydedd nifer fechan o Undodiaid America; y mae ei aelodau yn rhifo amryw filoedd eisioes, a pharha i ennill tir gyda chyflymder rhyfeddol. Dwedir ei fod, eisioes, wedi ennyn bywyd newydd yn ein heglwysi yn yr Unol Dalaethau.

* * *

Bu Mr. Strong yn annerch cyfarfodydd mewn nifer luosog o fannau yn Lloegr, gyda'r canlyniad fod mudiad o gyffelyb natur wedi ei gychwyn yno hefyd, tan yr enw *The Unitarian and Free Christian Laymen's League*. Gwneir y pwyllgor i fyny o nifer o leygwyr adnabyddus, gyda Dr. George Jessel fel llywydd; a'i amcan pennaf (o leiaf, un o'i amcanion pennaf) yw uno mewn un Frawdoliaeth y dosbarth lleygol yn ein heglwysi, modd y gellir yn fwy effeithiol ddwyn ein hegwyddorion i sylw mwy cyffredinol. Y mae ein hamser, fel y tybir, yn addfed i hyn.

* * *

Y mae rhaglen y mae'r pwyllgor wedi gyhoeddi yn un uchelgeisiol. Dyma erthygl gyntaf y cyfansoddiad: "hyrwyddo addoliad o Dduw a chariad at, a gwasanaeth i ddynoliaeth yn ysbryd Iesu." Dyna sylfaen yr adeilad. Galwaf yr erthygl hon yn sylfaen yr adeilad am y rheswm y tardd yr amcanion ereill o hono, y rhai ydynt fel y canlyn: (1) Dyfnhau'r ochr ysbrydol o fywyd; (2) Ymarfer a'r egwyddor o Frawdoldeb; (3) Efrydu problemau cymdeithasol i'r diben o'u deall; (4) Meithrin teimladau dyfnach o gyfrifoldeb yng nghyflawniad dyledswyddau dinesig; (5) Gwneud yn fwy gwybyddus ffyddlondeb ein heglwysi i egwyddorion sylfaenol Cristionogaeth. Crynhodeb yw yr uchod o raglen y *League*, ac nid cyfieithad. Yr unig air cymwys i'w desgrifio yw—ardderchog.

* * *

Sut y bwriedir cario'r rhaglen i weithrediad? Yn y dulliau a ganlyn: (1) Annog lleygwyr i gymeryd rhan mwy blaenllaw yng

ngwaith yr eglwysi ; (2) Hyrwyddo undeb a chydweithrediad cyflawnach rhwng lleygwyr yr eglwysi ; (3) Dod i gyffyrddiad (a chadw mewn cyffyrddiad) agosach ag Undodiaid mewn lleoedd heb un Eglwys Undodaidd ; (4) Cynhorthwyo cylchrediad newyddiaduron, cyfnodolion, pamffledau, a llyfrau, a dueddant i eangu diddordeb yng nghynnydd crefydd ryddfrydig ; (5) Sefydlu canghennau lleol o'r *League*, i'r diben o adfywio'r eglwysi, gwellhau'r mynychiad o'r gwasanaethau crefyddol, a meithrin diddordeb yng ngwaith yr Ysgol Sul. Pwysleisir y ffaith mai cymdeithas o leygwyr yn unig yw hon, heb un cysylltiad ag un o'r cymdeithasau ereill, ond mewn llwyr gydymdeimlad a phob un o honynt.

* * *

Sylwyd mai cymdeithas o leygwyr yn unig ydyw. Ni chaniateir i weinidogion i fod yn aelodau o honi. Cyfyngir hi i leygwyr i'r diben o "bwysleisio cyfrifoldeb y lleygwyr i wneud eu rhan yng ngwaith yr eglwysi." "Dyledswydd y lleygwyr," meddir, "yw darparu'r moddion i gynnal" ein hachosion, ac ni ddylid rhoi un cyfrifoldeb am y rhan hon o waith eglwys ar y gweinidogion. Perthyn i'r gweinidogion eu dyledswyddau arbennig ; a dylent gael pob rhwyddineb i lwyr ymgyflwyno i'r cyflawniad o honynt.

* * *

Nid oes amheuaeth nad yw ein hadeg yn un neilltuol o ffafriol i ledaeniad crefydd ryddfrydig. Ac y mae sefydliad y *Laymen's League*," yn yr Unol Dalaethau yn gyntaf, yna yn y wlad hon, yn arwydd calonogol o adfywiad diddordeb ymhlith ein lleygwyr yn llwyddiant ein crefydd, a'u cyfrifoldeb hwy i wneud eu rhan. Medd Shakespeare : "*There is a tide in the affairs of men, which, taken at the flood, leads on to fortune*," yn yr achos dan sylw, i lwyddiant. Ond—beth am Gymru ?

* * *

Dydd y *Leagues* yw ein dydd ni. Y mae'r ymadrodd *League of Nations* ar dafod pawb—un o'r ymadroddion ddygwyd i fodolaeth gan y rhyfel - un o'r ychydig o blant prydferth y rhyfel. Cyfeiriwyd uchod at yr *Unitarian Laymen's League*. Baban ieuanc iawn yw hwn hefyd. Mewn llyfryn diddorol a ymddanghosodd tua blwyddyn yn ol, o awduriaeth ein cydwladwr talentog, y Parch. J. Tyssul Davies, B.A., dadleuir dros gael *League of Religions*—nid cynghorau o'r holl enwadau Cristionogol, ond o holl grefyddau'r byd—Cristionogol ac anghristionogol. Arferid ystyried pob math ar grefydd tu allan i ffiniau Cristionogaeth yn grefyddau paganaidd ; yr hyn oedd gyfystyr a gau-grefydd. Y mae efrydiaeth o'r wyddor o "grefydd gydmariaethol" yn cyflym gyfnewid yr olwg gamsyniol hon. Nid

yw crefyddau o'r un gwerth : fel " y mae rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant," felly fe amrywia crefyddau yn fawr yn eu gwerth. Ond fel y dywed Mr. Davies yn ei ragymadrodd i'r llyfryn y cyfeiriwyd ato, yr un yw eu hamcan—prynu (puro) dynoliaeth, dysgu gwirionedd (yr hyn a dybia pob un o honynt sydd wirionedd), dadleu dros wneud cariad yn elfen lywodraethol yn y bywyd a'r gymdeithas ddynol.

* * *

Dadl yr awdur ydyw—pam na ellid ffurfio Cynghrair o holl grefyddau'r byd, i'r diben o hyrwyddo cydweithrediad rhyngddynt yn y pethau y cytunant yn eu cylch. Y mae'r pethau y cytunir yn eu cylch yn fwy lluosog, pwysig, a gwerthfawr, na'r pethau yr anghytunir yn eu cylch. Fe ddyry pob crefydd fynegiad i ryw agwedd neu agweddau o'r gwirionedd. Y mae delfrydau'r crefyddau yn dwyn graddau helaeth o debygolrwydd i'w gilydd. Ymhob crefydd y mae elfennau amserol, a wthir i'r cysgod gan wybodaeth berffeithiach. Ond fe ddyry pob crefydd fynegiad i wirioneddau, ac egwyddorion, a delfrydau " nad ânt heibio." Pwysleisir gormod ar yr anghydwelediadau. Dylid gosod mwy o bwyslais ar yr arhosol ymhob crefydd. Pe gwnelid hyn, fe ddelai proffeswyr holl grefyddau'r byd i ddeall eu gilydd yn well. Dyma'r cam cyntaf tua'r ddelfryd ddymunol ddelir o'n blaen gan Mr. Davies yn ei lyfryn gwerthfawr ac amserol.

* * *

Ymdeifl yr awdur i'r driniaeth o'i genadwri gyda sel apostol. Y mae'r dasg o'i flaen yn gofyn hyn—y dasg o orchfygu'r rhagfarnau pleidiol a ddaliant y byd crefyddol yn gaeth yn eu crafangau. Ond deuparth gwaith yw ei ddechreu, a rhaid dechreu cyn cwblhau. Eiddunwn i'n cyfaill lwyddiant mawr yn ei gâd-gyrch ddyngarol.

* * *

Ofnwyf fod ymddiheurad yn ddyledus am hynny o Saesneg geir yn y nodiadau uchod. Fy unig esgusawd yw—imi fethu cael fy moddloni gyda golwg ar y ffurf Gymraeg oreu o'r ymadroddion " *League of Nations*," " *Laymen's League*," " *League of Religions*." Clogyrnaidd yw cyfieithadau, fel rheol, yn enwedig cyfieithadau o ymadroddion cyffelyb i'r uchod.

Sylwedydd.

HOMILI FER: YSBRYD Y DISGYBLION, YNTE YSBRYD IESU?

DARLLENWN yn yr Efengylau i'r disgyblion, un tro, rwystro rhywun i fwrw allan gythreuliaid, "am nad yw yn ein dilyn ni;" ac i'r Iesu eu ceryddu am hyn, oblegid, meddai Iesu, "y neb nid yw i'n herbyn, o'n tu ni y mae." Ysbryd y disgyblion, fel mae'n syndod meddwl, sydd wedi apelio gryfaf at Gristionogion—ysbryd cadw allan o'r gorlan Gristionogol "am nad yw yn ein dilyn ni." Nid mewn un cysylltiad y mae Cristionogion wedi profi eu hunain yn fwy anffyddlon i Iesu nag yn eu harferiad o ysbryd y disgyblion. Y maen-prawf gan Gristionogion yw'r gredo, y seremoni, yr enwad. Y maen-prawf gan Iesu yw daioni yn unig. Y mae'r dyn a ymrodda i wneud daioni, yn ol Iesu, o'i du ef, y mae yn Gristion. Fe wahaniaetha dynion yn eu syniadau: ni allant lai na gwahaniaethu. Fe wahaniaethant gyda golwg ar y seremoniau ddylid eu harfer; y mae gwahaniaeth mawr rhwng seremoniau'r Eglwys Gadeiriol a seremoniau'r capel syml, diaddurn. Y mae'r Eglwys Gristionogol yn rhanedig i nifer luosog o enwadau; nid oes dim allan o le yn hyn, ynddo ei hun; yn wir, y mae'r rhaniad hwn i enwadau yn ganlyniad naturiol o'r amrywiaeth barnau a nodwedda'r byd Cristionogol. Yr hyn sydd allan o le—yn haeddu condemniad—yw'r ysbryd tebyg i eiddo'r disgyblion a ffynna mor gyffredinol. Y mae hwn ymhell o fod yn iawn. Y mae yn ysbryd anghristionogol. Ac y mae eisiau ei "fwrw allan" fel un o gythreuliaid andwyol ein hamser. Y mae'n ben bryd i'r byd Cristionogol gael ei ddwyn wyneb yn wyneb a'r ffaith hon—ei fod, cyhyd ag y glŷn wrth yr ysbryd hwn, nid yn unig yn camddeall Iesu, ond hefyd yn rhwystr i lwyddiant ei deyrnas. Beth oedd amcan pennaf Iesu? Dwyn teyrnas nefoedd i'r galon ddynol; neu, gwneud cariad yn elfen lywodraethol bywyd dyn yn ei holl gysylltiadau. Hanfod teyrnas nefoedd, yn ol Iesu, yw cariad. Lle nad oes cariad, nid yw teyrnas nefoedd yno ychwaith. "Teyrnas nefoedd," medd Iesu, "o'ch mewn chwi y mae." Ond ni all fod o'n mewn, os na fydd cariad yno, a lle nad oes cariad, nid oes disgyblaeth i Iesu. Dyma'r prawf o werth ein disgyblaeth; ydyw cariad yn allu digon cryf yn ein bywyd i'n cymell i wneud a allom o ddaioni. Dysgu'r wers hon yw un o anghenion pennaf ein hamser—mai egwyddorion ac ysbryd yw Cristionogaeth Iesu, ac nid credo, na seremoni, nac enwad. Yn y pethau hyn fe ddylai Cristionogion arfer goddefgarwch. Yn y pethau hanfodol—daioni a chariad—y mae angen cydweithrediad. Beth wna'r cydweithrediad hwn yn bwysig? Oblegid na all yr Eglwys Gristionogol wneud dim yn effeithiol i arwain y byd dynol o'i waeau hebddo. Yn ei waeau yr erys y byd hyd nes y gwrthweithir ysbryd y disgyblion gan ysbryd Iesu. "I ba gyfeiriad y mae'r byd yn symud? Ai i ddinystr, ynte i gyfeiriad y Crist?" Dyna ofyniad ddarllenais y dydd o'r blaen.

Nid oes ond dau gyfeiriad — naill ai oddiwrth Grist, neu yng nghyfeiriad y Crist. O'r cyntaf, ni ddaw ond dinystr; o'r ail yn unig y daw diogelwch a chynnydd. Fe saif y byd dynol heddyw fel pe ar groesffordd, a'r ddau lwybr hyn yn ei wynebu. Pa un o'r ddau ddewisir? Ni ellir dweyd. Ond fe allai'r Eglwys Gristionogol wneud llawer i gynnorthwyo'r byd i wneud y dewisiad goreu. Fe allai wneud hyn; eithr ni all wneud hyn cyhyd ag y pery'r ysbryd y cyfeiriwyd ato—ysbryd y disgyblion—ysbryd cul, rhagfarnllyd, digariad—i gael y fath ar le amlwg yn ymddygiadau Cristionogion at eu gilydd. Dyna, fel y sylwyd, un o gythreuliaid ein hamser. Ac y mae eisiau ei "fwrw allan"—ei ddifodi yn llwyr. A chryf yw'm ffydd y gwneir hyn—fod amser gwell i wawrio. Credaf y gwelir arwyddion o hono mewn amI i gyfeiriad—fod ysbryd Iesu yn esgyn fwy-fwy agos i'w orsedd, ac ysbryd y disgyblion yn cilio fwy-fwy i'r cysgodau. Testyn diolch a llawenydd yw hyn, oblegid yn y ffynnant o ysbryd Iesu, yn ddiamheuol, i'm tyb i, y mae gobaith goreu'r byd dynol.

LLAIS O'R PWLPUD.

Y PARCH. JOHN JONES, ABERDAR.

[Parhad o rhifyn Rhagfyr,—tud. 184.]

Pan gwympodd y dwr berw ar draed Father Damien (1841—89), y peth ddisgwyliem fyddai clywed iddo screchain gan ei boen. Ni wnaeth ddim o'r fath beth. 'Roedd y profiad yn waeth nag un poen, canys gwyddai y Father fod ei ddiffyg teimlad yn arwydd sicr fod ei droed wedi marw. Yr oedd yn ddideimlad am fod y gwahanglwyf wedi cydio ynddo. Byddai'n well ganddo'r poen ganwaith. Nid drwg i gyd yw poen. Un o angylion Duw yw poen i rybuddio dyn o berygl, ac i alw arno i ddeffroi a cheisio symud yr achos i ffwrdd. Nid diben gosod y goleudy *(lighthouse)* ar lan y môr yw i ddweyd "yma gorwedd," ond rhybudd yw'i bob llong i ochelyd y fan fel lle peryglus. Mae yn bwnc o bwys i wybod beth sy'n oreu i'w wneud lle bo tân. Fel y gwyr pob darllenydd, mae llosg tân yn boenus iawn. Fe wyr yr ysgrifenydd hynny drwy brofiad chwerw, a gwyr hefyd i John Jones wneud camsyniad tost yn y modd y ceisiodd ddiffodd y tân. 'Roedd yr ysgrifenydd tua saith neu wyth oed yn yr ysgol, yn yr hen Ysgoldy. Oherwydd teimlo yn oer feallai, fe gododd o'i sedd ac aeth at y tân. Ym mhen ychydig, oherwydd mynd yn rhy agos ac aros yn rhy hir, teimlodd ei drowsus yn ei losgi, a dechreuodd wban. Rhedodd ei dad ato, ac ymaflodd ynddo. Ni wnaeth hynny ond hel pethau yn waeth, a phery i'r wban fyn'd yn uwch, os yn bosibl. Yna cododd ei dad ef yn ei freichiau, a chariodd ef adref bob cam. Yna fe'i dododd hyd ei hanner mewn

llestr o ddwfr. Mae'n anodd gwybod beth oedd yn ei feddwl. Er fod y trowsus wedi poethi, nid oedd posibl fod tân y tu fewn. Pe gadewsid y plentyn lle'r oedd, oerasai'r trowsus, ac ni fuasai'r drwg cymaint. Ond y canlyniad i'r hyn wnaethpwyd yw, fod craith ar y glun hyd heddyw, yn mesur rhwng dwy a thair modfedd o hyd wrth fodfedd o lêd.

Er i ddyn, wrth arfer synwyr,
Ddeall peth ar ddeddfau natur,
Anwybodaeth dyn ei hunan
Fydd amlyced wedi'r cyfan.
Amnon.

O bob man hoffaf man cartref, neu yng ngeiriau'r bardd Seisnig :—

"There is a spot on earth, supremely blest,
A dearer, sweeter spot than all the rest."
J. Montgomery.

Yr un dybiwn yw ystyr y ddiareb : "Yf ddwfr o'th bydew dy hun, a ffrydiau allan o'th ffynnon dy hun" —Diar. v. 15. Tlws yw'r bardd Cymreig, er yn helaethu ystyr cartref :—

"Y Gad fwyn rêd i'r brwynach,
A Dyn i ben ei dân bach!"

O bob mwynderau, eiddo cartref yw'r puraf, y dyfnaf, a'r mwyaf parhaol. Gallwn gael pleser ym mysg dieithriaid, mae'n wir, ond beth ydyw hwnnw mewn cydmariaeth a'r pleserau geir ar aelwyd dyn ei hunan. Dywed y ddiareb : "Man makes house, woman makes home." Rhwng y ddau fe geir un o bethau gwerthfawrocaf bywyd. Mewn cartref da cawn y blaenbrawf yma o'r hyn ydyw y nefoedd draw. Caraf dystiolaethu yn y fan hon i linynnau bywyd yr ysgrifennydd presennol syrthio i le dedwydd a hyfryd iawn, a melus, melus yw'r adgofion. Rhai o nodweddion cartref dedwydd yw Trefn, Diwydrwydd, Ufudd-dod ; ond y prif angen yw Cariad. Gwasanaeth cariad parod, ewyllysgar, wna bob gwasanaeth arall yn ddigyfrif. Yn fy hen gartref i yr oedd ei le i bobpeth, a phob peth yn ei le. Er fod y berthynas arferol rhwng rhieni a phlant yno, anwybyddid ef yn rhinwedd y cariad oedd yn rhwymyn i'r oll. Fel olwyn mewn peiriant, cyflawnai pob aelod ei ddyledswyddau, heb feddwl am ei berthynas i'r aelodau eraill. Yr oedd boddlonrwydd yn coroni pob teimlad arall Er enghraifft, meddylier am y berthynas ariannol rhwng y rhieni a'r plant. Am flynyddau, o fewn cof i'r ysgrifennydd, ni chai'r plant ond dimai'r wythnos, a cheiniog yn ddiweddarach. Eto ni chlywais i erioed achwyn. Beth am y plant heddyw?

Yn y cysylltiad â chartref ni ddylid anghofio geiriau diweddaf Dr. Livingstone—"I am going home!" Pa gartref oedd mewn golwg ganddo? Yn Affrica yr oedd ar y pryd. Cartref yw lle anwylaf bywyd. Ar ol blynyddau o grwydro, teimlad y morwr a'r milwr yw,

'Rol blino treiglo pob tref,
Teg edrych tuag adref!

Pan yn ifanc 'roedd yn ben gyda phob mabol gampau, megys chwarae pel, cicio'r bel droed, taflu'r barr, saethu, pysgota, hela, &c. Troai y rhai hyn o'r neilldu, un ar ol y llall, fel yr oedd yn mynd yn henach. Delai dyledswyddau bywyd i alw arno, a chymrai y rhai hynny i fyny yn ol y galw. Gosodai ei ardd ei hunan bob blwyddyn. Cofiaf ef un tro, tra yn gosod yr ardd, yn gwrando gwers Lladin y Parch. Thomas Rees—y Dr. Thomas Rees, Abertawe, wedi hynny. Yr oedd hynny tua adeg ei weinidogaeth yn Ebenezer, 1840—42. Yr oeddwn yn rhy ifanc i gofio beth oedd ganddo, ond rhywbeth ar ei gof oedd. Peth arall 'rwyf yn ei gofio yn neilldiol. Trwy ryw anlwc 'neu gilydd fe dorrwyd drontol y tebot goreu, a mawr y gofid a'r galar fu. Ni fynnai

ei berchen ei chysuro. Gwelodd yntau fod yn rhaid gwneud rhywbeth i feddyginiaethu'r clwyf. Fe gofia'r darllenydd y stori am gyfarwyddyd y coginydd enwog i goginio ysgyfarnog. Y peth cyntaf, ebe fe, oedd "ei dal hi!" Ac angen cyntaf John Jones oedd cael gafael yn y "rhywbeth" y soniasom am dano. O'r diwedd cafodd afael mewn darn o bren bocs o'r maint iawn. Penderfynodd y ceisiai dorri hwnnw i fod yn drontol newydd i'r tebot. Gorchwyl anodd fuasai, ond dim cymaint ag eiddo Phidias yn tynnu delw Apollo allan o farmor garw y graig. Dyna'r delw ardderchocaf a welodd y byd erioed. Ymosododd ar ei waith gyda phob difrifoldeb. 'Roedd pwnc cynnil o'i flaen. 'Roedd yn rhaid cael y pren o ran mesur hyd drwch y blewyn, neu ni ffitiai i'w le. Felly dyna fe'n gosod y gyllell ar waith, ac yn naddu, naddu, naddu. O'r diwedd, ar ol blino llawer ar ei amynedd, dyna'r tebot wedi cael drontol newydd prydferthach nag o'r blaen. Rywbryd wedi hynny fe'i dangoswyd i dincer a alwodd ar ei gylchdaith. Gofynodd hwnnw pwy oedd wedi ei ffitio yn ei le. Dywedwyd wrtho, ac ebe fe, "He's a d—— better tinker than I am!"

Nid pawb fedr dweyd stori. Gallwn feddwl yn ol yr hyn a glywais i mai Davies, Castell Nedd, oedd y goreu o nifer yr hen weinidogion. Ond yr oedd John Jones yn stori-wr medrus. Yr oedd ganddo stôr dda o honynt wrth law yn gyfleus, a gwyddai'r ffordd i gynnal i fyny'r dyddordeb hyd y diwedd. Yn yr hen amser gynt ymgasglai cyfeillion ynghyd, a threulient oriau'r hwyr yn gyffredin yn adrodd a gwrando hen storiau. Dyna brif ddifyrwch llawer. Amrywiai'r storiau yn fawr. Mi wn i, fe wyr pawb, fod gwahaniaeth rhwng stori a stori. Byddai rhai yn weddaidd a rhai yn anweddaidd, rhai yn lân a rhai yn aflan. Yn fynych, byddai storiau am ysprydion a drychiolaethau yn cael lle amlwg yn y cyfarfod, a rhywrai fel Shon y Gof yn dweyd,

"Fod yspryd gan yr hoelion,
Gan lif, gan forthwyl, a chan bren,
A chan wlaneni gwynion."

Fe ddylai stori'r gweinidog, er yn ddifyrus, eto fod yn lân. Fe ddeil stori dda i'w hadrodd fwy nag unwaith. Cyngor y bardd Cowper oedd:

"A tale should be judicious, clear,
succinct,
The language plain, and incidents
well linked;
Tell not as new, what everybody
knows,
And new or old, still hasten to a
close."

Eithaf iawn, nid da fod y stori yn rhy hir. Dywedodd Iago ab Dewi rhywbeth tebyg flynyddau meithion yn ol:

Bum edifar fil o weithiau
Am lefaru gormod eiriau,
Ni bu cymaint o beryglon
O lefaru llai na digon.

Caraf fi glywed stori-awr medrus yn adrodd ei stori, a'r stori garaf fydd stori ddifyr, ddoeth, ac, os yn bosibl, stori fydd yn dysgu rhywbeth. Yn fynych mae'n rhaid diosg y wisg cyn y gellir cael golwg ar y wers. Beth yw'r wers gawn ni yn stori Twr Babel, neu'r hyn a ddywedir mewn cysylltiad ag Asyn Balaam?

Drwy hanner cyntaf oes John Jones yr oedd y *Bibell* a'r *Peint* yn ddau frawd mewn cryn fri, yn enwedig ym mhlith yr hanner gwrywaidd o gymdeithas, tra'r son am y menywod oedd — maddeuer yr awgrym, gan nad oedd yr arferiad yn gyffredin — eu bod yn caru'r snisin, ac yn rhai mannau, pan yn gwmni gyda'u gilydd, yn caru rhoi *rum* yn eu tê. Yr oedd hyn megys yn rhoi olew ar y peiriannau llefaru, ac fel canlyniad yn rhoi mwy o hwyl ar y gymdeithas. Credaf i'r snisin

"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

YR • YMOFYNYDD.

CYLCHGRAWN MISOL Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

GOLYGYDD—
Y PARCH. T. ARTHUR THOMAS, LLANDYSSUL

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

CYFRES YR UGEINFED GANRIF.

CYFROL 20.
1920.

LLANDYSSUL :
ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER

CYNHWYSIAD.

Anfarwoldeb, 140.
Apel ac Ateb, 152.
Ar Aden Ffydd, 1, 17, 33, 49, 65, 97, 113, 129, 145, 161, 177.

Blaencanaid, a'r ffordd tuag yno, 6, 21.
Bwrw allan ofn, 139.
Byd-adeiladaeth ar ol y rhyfel, 52.

Barddoniaeth—

Ar garn y ceryg gwynion, 111.
Blodeuyn a Chân, 112.
Cas bethau gwŷr Rhufain, 116.
Clod ein Tadau, 1.
Cri'r Afradlon, 113.
Cynulliad y cysgodau, 129.
Cywydd Cyfarch i R. J. J., 188.
Dechreu Mawrth, 49.
Er cof am Mrs. Davies, Foelallt, 20.
Fy Mam, 151.
Gweddi am arweiniad, 65.
Gweddi'r Arglwydd, 187.
Gwna dy ran, 148.
Gweddi Pererin, 49.
I'r Eira, 16.
Mae'r gwynt yn oer, 17.
Merthyron Ty'r Gweinidog, 32.
Penllwydni, 133.
Treigl oes, 97.
William James, Y Parch., Pryddest Goffa, 91.
Wrth y ffynnon yn Samaria, 161.
Y Sabbath, 145.
Yr Ystlum, 57.

Cwrdd Coffa Lewis Hopkin, 125.
Cyfarfodydd Blynyddol, Y, 117.
Cyfarfodydd Chwarterol. 156.
Cyffio yn y Gwersyll, 157.
Cymanfa Gerddorol Undodiaid Ceredigion, 98.

Darllen, 59.
Deffroad Crefyddol : Yn eisiau, 114.
Disgyblu'r meddwl a'r ewyllys, 15, 58.

Gwanwyn yr enaid, 54.
Gweledigaeth Mirza, 4.

Hannah Moore, Miss, 136.
Homili Fer : Cywilydd arddel Undodiaeth, 170.
Hwyrddydd ar y Traeth, 104.

Iesu, Y Dyn, 10.
John Jones, Aberdar, Y Parch., 72, 87, 102, 122, 134, 166, 181.
Jonah a'r Pysgodyn mawr, 74.
Jones, Y Dr. Tudor, 15, 58.
Jowett, Y Dr. yn Nurham, 50.

Locustiaid, 38.
Llythyr o Ferthyr, 36.

Mam, 89.
Maes Llafur, 8, 24, 43.
Manion, 13, 30, 47, 61, 80, 95, 109, 127, 143, 159, 174, 191.
Marwgofion, 12, 28, 44, 59, 77, 94, 107, 126, 141, 158, 173, 189, 192.

Nodion y Mis, 2, 55.

Oddiar y Twr, 34, 50, 66, 81, 98, 146, 162.
Offeiriadaeth a Difrawder Crefyddol, 184.

Pregeth Mr. J. M. Howell, 186.
Prifathraw Rees a'r Undodiaid, 58
Priodasau, 11, 27, 44, 59, 77, 93, 106, 126, 158, 189.
Prydain a Rhufain, 55.
Rhyfedd dreigl meddwl, 141.

Sasiynau, 85.
Swn yn y gwersyll, 118.
Syrthio i godi, 41.

Tair Bran Ddu, 40.
Thomas, Anrhydeddu Mr. J. R., 80.
Ti a bwyswyd, 11.
Trannoeth y Drin, 168.
Tri Ysgolfeistr enwog, 25.

Undodiaeth a'r ysbryd Cenhadol, 149

Y llef ddistaw, fain, 171.
Y maen a dreiglwyd, 76.
Y Pisyn Tair, 178.
Ynys y Cregyn, 18.
Yr Ysgol Sul, Arholiad, 14.
Ysgol Haf, 120.

a'r *rum* fynd allan o ffasiwn cyn pen fawr blynyddau. Yn hytrach cafodd y menywod afael yn llwybr doethineb o flaen y gwrywod. Parhau yn y blaen wnaethant hwy, a pharhau y maent, er yn fwy llac eu gafael, hyd heddyw.

Ragor nag unwaith mae wedi ysgrifennu yn ei ddyddiadur, "*Gave up smoking!*" Paham? A ydyw'r ateb yng ngeiriau Dr. Edwards?—"Rhyfedd fod dyn yn gallu sugno cymaint o bleser allan o beth mor fain a choes pib!" Ond paham y ceisiai ei roi i fyny ynte? Ei roi i fyny, a'i gymryd i fyny drachefn! Awgryma rywfaint o anwadalwch. Blys, chwant! Rhyw eisieu *artificial* ac eisieu anorchfygol. Dywedir y gellir rhoi heibio'r ddiod yn hawddach na'r bibell. Carwn gynghori pobl ifeinc fydd heb ddechreu i beidio creu yr un chwant newydd. Gofid a thrafferth yn unig sydd yn rhan y cyfryw pan yn ceisio ymwrthod ag ef. Ceisier ystyr englyn Caledfryn:

Hiraeth sy' bron a'i yrru—i ildio
Wrth weld pawb yn mygu;
Gwnai mygyn o'r cetyn cu
I'w wael wyneb ail wenu.

Parhaodd John Jones i ddilyn y grefft—broffidiol!—mwy neu lai hyd ddiwedd ei oes. Gwyddai ei fod yn gwneud niwed iddo. Felly rhaid bod yn gymedrol. Ni ddechreuai nes ar ol tê, ac os cymrai ragor na dwy bibellaid, byddai ei ddwylaw yn crynu. Onid ffolineb yw dechreu? Na cheisier pleser fydd a cholyn yn ei gwt. Darllener barn golygydd newydd "*Cymru*," yn rhifyn Tachwedd, y paragraff diweddaf i gyd.

Gall gair am *ei lythyron* fod yn ddyddorol. Fel eiddo ereill o'i gydweinidogion, yr oedd ei lythyron yn faith, ryw dair neu bedair tudalen quarto. Nid yn fynych y gellid ysgrifennu llythyr o'r maint hwnnw heddyw. Gofynnai ormod o amser. Heblaw hynny yr oedd cost y cludiad yn drwm—chwech neu naw ceiniog, neu swllt, yn ol maint y llythyr a'r pellder yr oedd i fynd. Yr oedd llythyron y dyddiau hynny, fodd bynnag, yn werth eu darllen a'u cadw. Gallwn edrych ar rai o honynt fel cynnyrch llenyddol gwerthfawr. Yn mis Ionawr, 1840, llwyddodd Syr Rowland Hill gael y *Penny Post** i weithrediad. Dygodd hynny chwyldroad yn yr arferiad o ysgrifennu llythyron. Anfynych y gwelid llythyr maith ar ol hynny; ond ysgrifennid yn fynychach os yn fyrrach. Aeth llythyron John Jones i fod yn fyrr iawn, prin byth yn llanw mwy nag un wyneb i ddalen o *note-paper*, a hynny yn fynych er siomedigaeth i'r aelod o'r teulu fuasai o gartre. Ni ddefnyddiai efe dri gair lle byddai dau yn ddigon. Mae'n od meddwl os na fydd dyn yn caru ysgrifennu llythyr, mae fynycha'n falch i dderbyn un. Yn anffodus mae'r hyn enillodd Syr Rowland Hill, ar ol llawer o drafferth, yn 1840, erbyn heddyw wedi ei golli oherwydd y rhyfel diweddar—cam yn ol yw, a cholled mawr ac anghyfleusdra cyffredinol.

Yr oedd yr eglwys *yn wasgaredig* yn yr hen amser, a rhai o'r aelodau yn byw ym mhell. Deuai rhai dair neu bedair milldir o ffordd—ambell un ar geffyl. Yn gysylltiol a'r capel yr oedd tŷ bychan, y parth isaf o honno yn gwasanaethu fel stabal, a'r llofft at unrhyw wasanaeth a ewyllysiai'r gweinidog. Mynychid yr addoliad y pryd hwnnw gan bobl o Lwydcoed, Abernant, Hirwain, Penderyn, Cwmbach, Cefnpennar, a Mountain Ash. Yn amser y Parch. Thomas Evans (1811—33)

* Hawliai'r Parch. Samuel Roberts, Llanbrynmair, mai efe yn gyntaf ddanfonodd yr awgrym i Syr Rowland Hill, ond nid yw Syr Rowland wedi cydnabod yr awgrym o gwbl. Darfu iddo gyhoeddi pamphlet ar y pwnc yn 1837. Pwy fedr air am yr hyn wnaeth Mr. Roberts?

ni chynhelid addoliad ond yn unig un pen i'r dydd. Yr oedd y gweinidog at ei ryddid y pen arall i'r dydd, ac felly cynhaliai wasanaeth, yn enwedig yn nhymor haf, yn un o'r lleoedd crybwylliedig. Pan drowyd yr Undodiaid allan o'r Ynysgau, tua 1813, bu Mr. Evans yn gwasanaethu iddynt am rai blynyddau, rywbryd tua 1815—20. Yr oedd yn cerdded y mynydd yn ol a blaen, canys nid oedd yr un trên eto. Yn 1821 yr agorwyd y capel newydd Twyn-yr-Odyn, a'r gweinidog cyntaf oedd David Rees, M.A., M.D., gwr ifanc o gymdogaeth Cei Newydd. Mr. Jones gychwynodd y gwasanaeth hwyrol yn yr Hen Dy Cwrdd, ac y mae wedi parhau o'i ddyddiau ef hyd heddyw. Tua diwedd ei oes, yr oedd y Seisneg yn cynyddu cymaint, yn enwedig ymmhlith y bobl ifeinc, fel y bu raid iddo drefnu rhywbeth ar eu cyfer. Teimlai na ddylai esgeuluso'r bobl ifeinc ; yn y man y bobl ifeinc hyn fyddai colofnau'r achos yn y dyfodol.

Sefydlwyd yr achos newydd yn Cwmbach yn 1857, a'r achos Seisnig yn Highland Place yn 1860.

HANES CAPEL Y BRYN, CWRTNEWYDD.

Y mae hanes cychwyn a chynnydd pob mudiad crefyddol yn fater o ddiddordeb, ac felly nid annerbyniol, efallai, a fydd ysgrif neu ddwy i olrhain y modd y dechreuodd ac y datblygodd yr achos Undodaidd yng Nghapel y Bryn, Cwrtnewydd.

Yn hytrach na dyfod yn uniongyrchol at fy mhwnc, fodd bynnag, hwyrach y dylwn yn gyntaf gymryd y darllenydd yn fy llaw i'w gyfarwyddo ynglyn a safle a hanes y plwyf a'r pentref lle y saif y capel. Ymddengys i mi na chafodd yr un o honynt hyd yn hyn y sylw a haedda.

Nid oes yng Ngheredigion odid blwyf mwy nodedig na Llanwenog, ar lawer cyfrif. Yn ddaearyddol, rhed yn llain hir-gul, tua deng milltir o hyd wrth ddwy o led, o afon Teifi ymron hyd at gyrau dwyreiniol Banc Sion Cwilt, a rhanna ei hun yn naturiol i'r Fro gymharol wastad, a'r Blaenau bryniog. O ben bwygilydd iddo, fel llinyn o arian, rhed yr afonig risialaidd a ddwg yr enw Cledlyn (o'r ddau air—*caled* a *llyn*, neu ddwfr, debygaf), ac ymarllwysa honno i Deifi, mewn lle a elwir Rhuddlan.

Ai gan waed a dywalltwyd rywbryd mewn brwydr neu gyflafan y gwnaethpwyd yn *goch* neu *rudd* làn Teifi yn y fan hon, nis gwn ; ond y mae yn bur sicr fod yr enw yn hynafol iawn, oherwydd sonir am dano mewn chwedl a ddaeth i lawr i ni drwy ganrifoedd lawer, sef ym Mabinogi Math fab Mathonwy. Mewn rhyw oes bell iawn yn ol, fe safai yn Rhuddlan lys neu blas mawr, ac yn hwnnw y trigai Pryderi, yntau yn fab i Bwyll, pendefig neu dywysog Dyfed. Gwnaeth Pwyll gymwynas fawr unwaith a rhyw frenin o'r enw Arawn, a naturiol i hwnnw mewn canlyniad oedd danfon rhodd i fab Pwyll, a'r anrheg a roes iddo ydoedd nifer o hobau neu foch ; ac felly, yn ol y chwedl hon, i blwyf Llanwenog y perthyn yr arbenigrwydd o fagu y moch cyntaf ym Mhrydain Fawr. Aeth y dewin Gwydion ap Don a'r son am danynt i glustiau Math, tywysog Gogledd Cymru, a dyma'r ymddiddan a fu rhyngddynt :

"Arglwydd," ebe Gwydion, "mi a glywais ddyfod i'r Deheu ryw bryfed na fu yn yr ynys hon erioed."

"Beth yw eu henw hwy?" ebe eb.

"Hoben, Arglwydd."

"Pa fath anifeiliaid yw y rhai hynny?"

"Anifeiliaid bychain, gwell eu cig na chig eidion. Bychan ydynt, ac y mae arnynt fwy nag un enw—moch y gelwir hwy weithiau."

Cyn pen ychydig amser, lledaenodd biliogaeth moch Pryderi trwy Gymru benbaladr, a hynny o herwydd eu bod yn "well eu cig na chig eidion;" ac oni chawn yma engraifft nodedig o'r gwirionedd mai ffordd sicr iawn i ennill dyn, ym mhob oes, yw trwy ei gylla.

Ym mherson cenhadon deffroad crefyddol y 18fed ganrif—Jenkin Jones, David Lloyd, a Charles Lloyd. Derbyniodd yr ardal hon amgenach rhoddion na'r "hoben," a hynny oddiwrth Frenin uwch nag Arawn, ond ni fu y derbyniad a gawsant mor boblogaidd o lawer yng Nghymru. Pa beth oedd y rheswm, tybed? A ydyw chwedl y moch yn awgrymu rhywbeth?

Tua dwy filltir o Ruddlan i fyny'r afon Cledlyn, ac ar y tu deheuol i'w dyffryn, ymnytha hen eglwys y plwyf (a gysegrwyd, meddir i Sant Gwynog) mewn cilfach gysgodol rhwng y bryniau. Yn "Hanes Ceredigion," a gyhoeddwyd yn 1810, dywed Syr Samuel Meyrick y perthynai i'r eglwys unwaith bedwar betws neu gapel, sef Capel Whyl, Capel Llanfechan, Capel Santesau, a Chapel "Brun eglwys."

Safai yr olaf ar y bryn crwn y sydd uwchben pentref tlws a thawel y Cwrt Newydd, a gelwir yr amaethdy cyfagos yn Fryn-yr-eglwys hyd y dydd hwn. Y mae'r gair a ddefnyddia Meyrick ynglyn ag *adfeiliad* Capel y "Brun" yn awgrymiadol iawn, oherwydd dywed ei fod wedi ei *ddistrywio*, ac nid annheg yw casglu i hynny ddigwydd yn nhymor y dirywiad o dan yr Archesgob Laud, neu efallai yn ystod cynnwrf chwildroad Cromwell.

Gwelir felly nad sefydliad diweddar mo Gapel Bryn-eglwys; canys yn ol pob tebig, yr oedd gerllaw i Gwrt Newydd *fetws* neu *gell-meudwy*, yn dwyn yr enw hwn, ymhell cyn y dywgiad Protestanaidd yn amser Harri'r Wythfed. Aeth hanes pendant y canrifoedd hynny ynglyn a'r ardal hon i lwyr ddifancoll, ond hoff i'm calon yw dychmygu gweled cannwyll efengyl Mab y Saer ar y "Brun" yn cynneu o hyd, yn fwy neu lai clir, er goleuo a chysuro pobl dlodion y Cwrt Newydd.

O ba achos bynnag y distrywiwyd y capel (tua 1640, dyweder), diameu mai colled fawr i Flaenau plwyf Gwenog a fu diffodd y lamp fechan a fu gyhyd yn oleuni ar y Bryn. Dychmygaf i gyfnod tywyll ddilyn, oblegid mynach y "Brun," er ei ffaeleddau, oedd offeiriad, meddyg, athro, a swyddog elusenol y Cwrt a'r cylch.

Tua'r adeg yma, fe wnawd ymdrech fawr i godi'r wlad o'i llygredd a'i hofergoel gan nifer o genhadon Puritanaidd fel Morgau Llwyd o Wynedd, a Vavasor Powell, a sefydlwyd achosion Ymneilltuol yma a thraw trwy Gymru. Cyrhaeddodd y gennad hyd flaenau eithaf Gwenog, a thywynnodd y goleuni newydd yn llachar iawn ar dair neu bedair o aelwydydd amaethdai rhan ucha'r plwyf. Er nad oedd yma eto achos rheolaidd, yr oedd pedwar o amaethwyr mwyaf cyfrifol yr ardal yn coleddu syniadau rhydd ar bwnc dadl fawr y dydd, sef Calfiniaeth neu Arminiaeth. Enwau y pedwar cawr Ymneilltuol hyn oedd David Jenkins o Grugmaen, John Jenkins o Fryngranod, Morgan Rhydderch o Alltgoch, a Richard Lloyd o Goedlannau. Bu y blaenaf a enwyd yn Academi Caerfyrddin am dymor, a bu wedi hynny yn gyd-weinidog a Phillip Pugh ar eglwysi Cilgwyn a Chiliau (a ffurfiwyd yn 1650). Danfonodd y tri wyr ereill bob un o honynt fab i'r weinidogaeth Ymneilltuol, sef Jenkin Jones (1700—42) sylfaenydd Llwynrhydowen; Abel Morgan (1673—1722), awdur y Mynegair (*Concordance*) cyntaf i'r Bibl Cymraeg; a David Lloyd o Frynllefrith (1724—1779).

(I'w barhau.)

THOMAS JEFFERSON—

Arlywydd Unol Dalaethau America. Ei lythyr at y Crynwr.

"*Monticello,*
Medi 13, 1813.

Syr, — Derbyniais eich llythyr, dyddiedig Awst 29, yn brydlon, ac yr wyf yn deimladwy i'r bwriad caredig y tu cefn iddo, ac yn ddiolchgar am dano, yn fwy felly am na allant lai na bod i raddau yn gydnabyddiaeth ffafriol o'm gyrfa gyhoeddus. . . . .

Nid oes un pwnc wedi cael mwy o sylw gennyf na'n perthynas a phawb o amgylch i ni—ein dyledswyddau a'n rhagolwg ar y dyfodol. Ar ol clywed pob peth y gellir ei awgrymu ym mherthynas iddynt, yr wyf wedi ffurfio y farn oreu fedraf am y cwrs awgrymir ganddynt, ac ar ol dilyn y cwrs hwnnw nid wyf yn cofio am ddim i beri anghysur i mi. Dywedir i bregethwr hyawdl o'r enw Richard Mott, perthynol i'ch cymdeithas chwi, mewn anerchiad llawn teimlad dwys un tro, waeddi'n uchel, "nad oedd yn credu fod yr un Cwacer, na'r un Presbyteriad, na Methodyn, na Baptist, yn y nefoedd." Yna ar ol oedi ychydig fel y gallai'r gynulleidfa gael amser i synnu a rhyfeddu, ychwanegodd "nad adwaenai Duw yn y nefoedd yr un gwahaniaeth enwad, ond edrychai ar bawb dynion da fel ei blant, oll yn frodyr o'r un teulu."

Yr wyf yn credu gyda'r Cwacer fod yr hwn sydd yn parchu yr egwyddorion moesol gytunir arnynt gan bob ffurf o grefydd, nas amheuir y rhai hynny wrth borth y nefoedd, fel yr amheuir y pethau y gwahaniaethir yn eu cylch ; wrth fynd i fewn yno bydd pob Aristeides, pob Cato, Penn, Tilotson, Presbyteriad, Baptist, mewn undeb a'u gilydd yn yr holl egwyddorion fydd mewn cydgordiad a'r Meddwl Dwyfol. O'r holl systemau o foesoldeb, hen neu ddiweddar, sydd wedi dod dan fy sylw i nid ymddengys yr un mor bur a'r un a briodolir i Iesu. Credaf na fydd angen i'r hwn a ddilyno'r system honno'n ffyddlon a sefydlog, bryderu dim, er iddo fethu deall holl ddirgelion a'r hollti blew diwinyddol gysylltir a'i athrawiaethau gan y rhai a broffesant eu bod yn ganlynwyr ac yn ffafriaid neillduol, ac a wnant achosi'r dyb iddo ddyfod i'r byd i osod rhwydau a maglau ar bob deall ond yr "eiddynt hwy." Mae eu pennau uwch-anianol hwy, wrth gymryd eu safle ar orsedd y Bod Mawr, yn cyhoeddi gwae, megys ar elynion, ar y rhai na fedrant ganfod *logic* Euclid yn eglurebi ac Athanasius, fod tri yn un ac un yn dri. Ym mhob peth sydd o bwys yr ydych chwi a minnau o'r un grefydd, ac yr wyf fi yn rhy hen i fynd ar ol pethau ansylweddol. Gan ddiolch eto am eich teimlad da, yr wyf yn eich annerch gyda chyfarchiad caredig a chariad brawdol."

YR HEN BOBOL.

Wedi gweld eu diwrnod gwaith—ac wylo
Gyda'i gilydd ganwaith,
A moli lawer milwaith—wele'u gro,
Hawdd iawn yw wylo, ond cwrddwn eilwaith.

CRWYS.

PRIODASAU.

HYDREF 30, 1920, yng Nghapel Undodaidd, Abertawe, gan y Cofrestrydd, a'r Parch. Dr. A. S. Hurn, priodwyd Mr. Robert Leonard Thomas, a Miss Kate Thomas, y ddau o'r Mumbles.

RHAGFYR 8, yng Nghapel Undodaidd, Abertawe, gan y Cofrestrydd, a'r Parch. D. Eiddig Jones, Clydach, priodwyd Mr. David J. Rees, Clydach, a Miss Kate John, Cefneithrin.

RHAGFYR 24, yn Alltyblacca, gan y Gweinidog, ac yn mhresenoldeb Mr. Enoch Davies, y Cofrestrydd, Mr. Evan Jones, Cyfrifydd, Dolgader, Llanybyther, â Miss Sarah Hannah Jones, unig ferch Mrs. Jones, Ty'r Capel, Alltyblacca. Yn ddedwydd y byddont.

RHAGFYR 29, yng Nghapel Pantydefaid, gan y Gweinidog, unwyd mewn glân briodas Mr. Daniel Thomas, Bwlchyffin, Llangunllo, â Miss Margaret Davies, Windsor Hall, Llandyssul.

Hir y bo'u hoes,
A llawn y bo'u llwydd.

MARWGOFION.

MEDI 19, yn 19 oed, bu farw Evan Glynne Evans, ŵyr Mrs. Evans, 10 Broniestyn Terrace, Aberdar. Yr oedd yn aelod o'r Hen Dy Cwrdd, yn ffyddlon yn yr Ysgol Sul a'r Gymdeithas Ymdrechol, ac yn cymeryd diddordeb neillduol ymhob peth perthynol i'r eglwys. Yr oedd yn fachgen addawol iawn, siriol ac hawddgar, bob amser yn meddu ar uchelgais ac amcanion teilwng mewn bywyd. Ar ol ymadael a'r Aberdare County School bu yn brentis i Mr. Ll. Humphreys, Chemist, Trecynon, ac ar ol hynny bu yn gynorthwywr yn y Dulais Pharmacy, Pontardulais. Daeth adref o Bontardulais yn wael ei lechyd, a dioddefodd boenau dirdynol am ryw bedwar mis. Ond trwy y cyfan, cadwodd ei sirioldeb, a gwelwyd ef hyd yn oed yn ei lesgedd a'i boen yn nodi allan *recipes* gogyfer a'r dyfodol, gan ddweud, "fe ddaw y rhai hyn yn ddefnyddiol rhyw ddydd." Claddwyd yn y fynwent gyhoeddus. Medi 23ain, a gwasanaethwyd yn y tŷ gan yr Hybarch R. J. Jones, ac ar lan y bedd gan y Parchn. E. R. Dennis a D. Rees, Salem (A.) Estynnir i'r teulu yn eu gofid y cydymdeimlad tyneraf. Hawdd oedd canfod yr edmygedd oedd gan ei gyfeillion a'i gydnabod tuag ato trwy weled y nifer fawr o lythyron a phlethdorchau dderbyniwyd. Henffych i'r dydd cawn eto gwrdd.

TACHWEDD 15, yn 33 oed, bu farw John Jones, annwyl fab Evan ac Anne Jones, Abernant, ger Cribyn, yn Nodd-dy Caerfyrddin. Bu ar wasanaeth mewn amryw fasnachtai pwysig yn y brifddinas hyd y torrodd y rhyfel allan. Yn fuan ar ol iddo dorri allan ymunodd a'r fyddin, a bu am beth amser tan arferiad milwrol mewn amryw fannau. Eithr er mai ei ddymuniad ef oedd gwneud ei ran dros ei wlad, nid oedd trin arfau yn dygymod a'i natur, a bu raid iddo

dorri ei gysylltiad â'r fyddin. Bu hyn yn achos blinder iddo ; yn enwedig fe flinai am na chaniateid iddo fyned allan i faes y frwydr. Mewn nodyn ddaeth i law ysgrifennydd y llinellau hyn oddiwrth ei feistriaid olaf cyn ymuno o hono a'r fyddin, dygent dystiolaeth uchel iddo tra fu yn eu gwasanaeth. I'w rieni, a'i dri brawd a thair chwaer, er y gwelant mai gwell ydyw fel y mae, diameu y pair ei ymadawiad alar dwys. Ond ymgysurent a'r meddwl mai dim ond wedi myned o un drigfan i drigfan arall yn nhŷ ein Tad y mae. Dygwyd ei gorff i Gladdfa Capelygroes dydd Mercher canlynol. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle. Traddodwyd y bregeth angladdol dydd Sul yr 28ain i glywedigaeth cynnulleidfa luosog.

TACHWEDD 28, yn 48 mlwydd oed, o'r *pneumonia*, David Lloyd, 16 Merthyr Road, Pontypridd. Mab ydoedd i'r diweddar Mrs. Hannah Lloyd, Lletty'rwenol, wedi hyny o Clarence, Cwrtnewydd. Ar ol bod am rai blynyddau yn gwasanaethu mewn ffermydd ymbriodododd ag ail ferch y diweddar David a Margaret Richards, Y Siop, Cwmsychbant. Yn fuan wedi hyny ymadawodd a'i ardal enedigol, gan gymeryd ei briod gydag ef, am Forganwg, i weithio mewn glofa. Dechreuodd fynychu ysgol nôs, ac er nad oedd wedi cael manteision addysg pan yn ieuanc, gwnaeth gynydd cyflym, ac enillodd *First Class Certificate* mewn gwybodaeth lofaol. Nid gwaith hawdd ydyw pasio yr arholiad hwn, a phan gofiom fod gofalon teuluol yn pwyso arno erbyn hyn, dengys ei lwyddiant iddo wneyd ymdrech fawr. Er ei fod yn ddieithr yn y lle, ac heb neb i ddylanwadu ar ei ran, efe a enillodd barch ac ymddiriedaeth pobl, a chafodd ei benodi yn *fireman* ac yn *overman* yn nglofa Windsor, Ynysybwl. Wedi hyny cafodd ei ddyrchafu i fod yn *manager* glofa Taylor, Nantgarw. Symudodd oddiyno i Pontypridd, ac yr oedd ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth wedi cael ei wneyd yn *manager* glofa yno. Gwnaeth ymdrech ragorol ar ran ei deulu Mae ei fab hynaf bron gorphen ei gwrs mewn Training College yn Sheffield, tra y mae mab arall yn Fferyllydd, a dwy ferch mewn Training College yn Barry, a dwy arall yn yr Ysgol Ganolraddol. Yr oedd yn aelod ffyddlon o'r Eglwys Undodaidd ym Mhontypridd. Amlygwyd parch mawr iddo ef a'i deulu dydd yr angladd, ac anfonwyd nifer luosog o *wreaths* oddiwrth swyddogion glofeydd, aelodau ei eglwys, ac eraill. Claddwyd yn Nghladdfa Gyhoeddus Glyntaf. Gadawodd briod, pump mab, pedair merch, dau frawd, tair chwaer, ac amryw o berthynasau eraill mewn galar mawr ar ei ol. Nerth a gaffo'r weddw a'r plant i yngynal dan y brofedigaeth arw.

RHAGFYR 16, yn 79 oed, Anne (Nanny) Jones, Sunny Hill, Pisgah, Talgarreg, gweddw y diweddar John Jones, neu fel yr adnabyddid ef yn gyffredin, Jack, Pantbach. Yr oedd yn aelod ffyddlon iawn yn Bwlchyfadfa. Er ymlaen mewn dyddiau, ac er fod y ffordd yn faith mynychai'r addoliad yn hynod o reolaidd hyd y diwedd. Saif Sunny Hill o fewn i ychydig latheni i gapel Annibynol Pisgah, a gallesid meddwl gan ei bod hi yn hen y buasai hyny'n achos iddi fynychu'r gwasanaeth yno yn hytrach na cherdded tua dwy filldir i Bwlchyfadfa, ond cerdded tuag yno wnai hi, a cherddai bob amser yn frysiog a throed-ysgafn, fel geneth 18 oed. Nid am fod ganddi unrhyw deimlad angharedig tuag at eglwys Pisgah y gwnai hyn—yn wir, gwyddom fod ganddi barch mawr i'r cyfeillion yno, ond o serch a ffyddlondeb at y lle a'r achos yn y Bwlch. Teimlai ei bod yn ddyledswydd arni wneud a allai dros yr achos gan ei bod yn aelod yno. O na chaem gan lawer yn rhagor o'n haelodau i deimlo rhywbeth yn debyg i hyn. Benyw ddiwyd fu ar hyd ei hoes ; benyw gryno a glanwedd bron y tuhwnt i'r cyffredin. Ei harwyddair hi oedd "ei le i bobpeth, a phobpeth yn ei le." Yr oedd yn galonog iawn, a chadwodd yn ieuanc ei hysbryd hyd y diwedd. Ar

gyfrif ei sirioldeb a'i hysbryd cymwynasgar yr oedd y cymydogion yn hoff iawn o honi. Cystudd byr a chaled fu ei chystudd—yr oedd o gwmpas pum niwrnod cyn ei marw. Gadawodd mewn galar fab, merch, tri brawd, nifer luosog o wyrion, ynghyd a pherthynasau ereill. Claddwyd y Llun dilynol yn Bwlchyfadfa, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

RHAGFYR 8, yn 39 mlwydd oed, Sarah Evans, Ffrwdwen, Llandyssul. Bu yr ymadawedig yn gwanychu yn ei hiechyd am rai blynyddau, ac er pob gofal a help rhieni a chyfeillion, ehedodd ei hysbryd at Dduw yr hwn a'i rhoes. Ychydig dros ddwy flynedd yn ol y collodd y teulu hwn ferch arall, yr hyn sydd yn gwneud cwpan eu profedigaeth yn llawn. Y dydd Llun dilynol claddwyd yr hyn oedd farwol o honi yn mynwent Pantdefaid, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. E. O. Jenkins. Y nos Sul dilynol cynhaliwyd gwasanaeth coffadwriaethol yng Nghapel y Graig, lle yr oedd yn aelod. Noddeed y nef fyddo dros y rhieni a'r mab bychan yn eu hiraeth a'u tristwch.

RHAGFYR 22, yn 27 mlwydd oed, Alice Evans, priod ieuanc Mr. Tom Evans, Sychbant, ger y Gorrig, ac annwyl ferch Mr. a Mrs. David Thomas, Ffynnonwen, Tregroes. Creodd marwolaeth sydyn ac annisgwyliadwy yr ymadawedig deimlad prudd a thrist, nid yn unig ymhlith ei pherthynasau, ond hefyd ymhlith cylch eang ei hadnabyddiaeth. Dydd Nadolig, 1919, yr ymbriododd, ac i bob ymddangosiad y pryd hwnnw, gellid proffwydo oes hir a dedwydd iddi. Yn fuan wedi hynny gwnaeth hi a'i phriod eu cartref yn y Gorslas, Sir Gaerfyrddin, ac ar ddydd Nadolig, 1920, gosodwyd yr hyn oedd farwol o honi i orffwys ym mynwent Pantydefaid. Bu yr ymadawedig yng ngwasanaeth Mr. a Mrs. Arthur Thomas, Llandyssul, am naw mlynedd, yn fawr iawn ei pharch. Yr oedd yn hynod ffyddlon yn yr eglwys, yr Ysgol Sul a'r Ysgol Gân yng Nghapel y Graig. Yn ychwanegol at ei phriod, gadawodd hefyd faban naw diwrnod oed, tad a mam, brawd a dwy chwaer mewn galar a hiraeth dwys. Gwasanaethwyd yn y Gorslas gan y Parch. T. Arthur Thomas, lle hefyd y bedyddiwyd ei baban, Gwenneth Alice, ac ym Mhantdefaid, lle y daeth cynulliad lluosog ynghyd, ac arwyddion cydymdeimlad ar bob wyneb. "Henffych i'r dydd, cawn eto gwrdd."

MANION AC HANESION.

Y GRAIG A GELLIONEN. — Sul, Medi 5, 1920, cynhaliwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch am y Cynhaeaf —y bore yng Ngellionen, a'r hwyr yn y Graig. Pregethwyd gan y Parch. D. G. Rees yn y bore, ac yn yr hwyr gan y Parch. Ddr. A. S. Hurn, Abertawe. Casglwyd at Drysorfa Clafdy Abertawe.——Yn y Graig, nos Sadwrn a thrwy y Sul, Hydref 30 a'r 31, a nos Lun, Tachwedd 1, y cawsom ein cyrddau pregethu. Pregethwyd nos Sadwrn gan y Parch. Conwil Evans; bore

Sul, gan y Parch. T. O. Williams, B.A.; prydnawn, y Parch. Conwil Evans; a'r ddau yn yr hwyr; a nos Lun gan y Parchn. T. O. Williams, B.A., a T. Pugh Jones, Pontardawe. Cawd pregethau grymus a chasgliadau da i'r achos.

BWLCHYFADFA.—Sul, Rhagfyr 5, cynhaliwyd Cyfarfodydd Pregethu yma, pryd y gwasanaethwyd fore, nawn a hwyr gan y Parch. H. T. Jacob, Abergwaun. Yr oedd y pregethwr yn ei hwyliau gorau, a chafwyd cynnulliadau da drwy y dydd, yn enwedig y prynhawn a'r hwyr, pryd yr oedd yr adeilad yn orlawn. Diwrnod i'w hir gofio ydoedd, ac hyderwn y bydd y pethau da a glywsom yn help i rai o honom i hiraethu mwy am y bywyd uwch a gorau. Y nos Lun ddilynol, cafwyd Ddarlith gan Mr. Jacob ar "Yr hen godwr canu ac ereill." Darlith ddiddorol, adeiladol, a hwylus dros ben. Teimlwn yn ddiolchgar iawn i Mr. Jacob am ei wasanaeth gwerthfawr. Y cadeirydd nos y Ddarlith oedd y Parch. E. Glyn Edwards, Cwrtnewydd. 'Rym yn ddiolchgar iddo yntau: gwnaeth gadeirydd hapus a phwrpasol.

CYNNYGIR gwobr o hanner can' punt am y cyfieithiad goreu i'r Gymraeg o'r llyfr hynod, "Daniel Evelyn, Heretic," gan Cadvan Rhŷs. Pris y llyfr yw chwe' swllt, ond gellir ei gael yn rhad drwy y post am 3/9, oddiwrth Arolygwr y "Christian Life" Book Club, 5, Fetter Lane, London, E.C. 4. Anfoner ato ef hefyd am deleiau y gystadleuaeth.

CYNGHORION I BREGETHWR IEUANC.—1. Dechreuwch yn ifanc. Ym mhob peth, ac yn neillduol mewn llefaru, pwnc mawr yw ymarfer. Os yn dechreu yn ddiweddar ymarferwch yn fwy. 2. Dadansoddwch eich testun neu eich pwnc, a thriniwch ef goreu byth y gellwch. Esponiwch, eglurwch, profwch, addaswch ef, &c. Yn lle prynu rhyw gymysgfa o bregethau o waith rhywrai eraill, ac i'w hadrodd genych chwi eich hunan, dysgwch chwi eich hunan i gyfansoddi. 3. Dechrenwch gyda phynciau hawdd. Cymrwch ddarn o hanes Ysgrythyrol. Sylwch ar amser, lle, amgylchiadau, &c. Ni all dim fod yn rhwyddach na dweyd ychydig am bob un. 4. Bydded eich ymdrechion cyntaf yn fyrr. Bydd rhannu i ddau ben yn ddigon. Arholwch y rhai hyn yn fyrr, ac heb ormod o addurniadau. 5. Ymarferwch yn gyntaf mewn lle priodol—nid yn unig i swnio eich geiriau yn eich ystafell neu yn y maes, ond ar y dydd cyn y byddoch yn pregethu, ewch wrthych eich hunan i'r man lle'r ydych i bregethu, esgynwch i'r pwlpud, ymgynefinwch a'r lle, adroddwch eich pregeth. Pregethwch yn gyntaf mewn pentref gwledig, ym mhlith Cristnogion syml cyffredin.—R.A.

DOETHINEB.—Megis na siglir y graig gan y gwynt, felly ni phetrusa pobl ddoeth yng nghanol beio a chanmol. Mynd ym mlaen wna'r bobl dda nad beth ddigwydd, y bobl dda ni furmurant, pan yn dyheu am bleser. Y rhai y mae eu meddwl wedi ei seilio yn elfenau gwybodaeth, y rhai y mae eu gwendidau wedi eu gorchfygu, y rhai ydynt yn llawn goleuni—y rhai hyn y maent yn rhyddion yn y bywyd hwn. Y cyfryw hynny ag ydynt yn cyflawni eu dyledswydd, maent yn oddefgar fel y ddaear ei hunan. Ei feddwl sydd dawel, tawel yw ei air a'i weithred, pan fyddo wedi ennill rhyddid drwy wir wybodaeth.—*Bwda*.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

BOOKS ON LIBERAL RELIGION.

— **Just Published.** —

A Unitarian's Thought of God. By Christopher J. Street, M.A., LL.B. Crown 8vo, 94 pp., 2s. 6d. net, paper 1s. 6d. net, postage 3d. "This little book is the result of a firm conviction that no solution is to be found for the deepest problems of life except in the thought of God and the realisation of his presence and operation in the life of man."—*Preface.*

Realities and Reconstruction. By R. Travers Herford. Crown 8vo, 152 pp., 3s. 6d. net, paper 2s. 6d. net, postage 3d. "It is salutary to read these quiet, sensible chapters which hold up a high ideal, but at the same time remind us of some obstinate facts."—*Inquirer.*

The Parables of Jesus applied to Modern Life. By J. Cyril Flower. With a Foreword by Dr. L. P. Jacks. Crown 8vo., 116 pp., paper 2s. net. Mr. Flower writes as one who believes that "the time is at hand when we shall cease to chatter about the person of Christ, and when the world will catch a glimpse of the real man of Galilee, and give ear to a teaching which, like the seed growing in secret, shall germinate in the hearts of men and revolutionize our social life, our industrial order and our religion."

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C. 2.

Postage is saved by ordering through a Bookseller.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £19 5s.; with Music, £21 7s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Six Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq., K.C., Mrs. H. Foster Morley.

London Joint City and Midland Bank Limited

CHAIRMAN:

The Right Hon. R. McKenna

JOINT MANAGING DIRECTORS:

S. B. Murray, Esq., F. Hyde, Esq., E. W. Woolley, Esq.

Subscribed Capital	**£38,096,363**
Paid-up Capital	**10,840,112**
Reserve Fund	**10,840,112**
Deposits (*June 30th, 1920*)	**367,667,322**

Head Office:

5, Threadneedle Street, London, E.C.2

Over 1460 Offices in England and Wales

Llandyssul Branch: 9, Lincoln Street

Manager: ***Mr. T. M. JONES***

Affiliated Banks:

Belfast Banking Co., Ltd.
Over 110 Offices in Ireland

The Clydesdale Bank Ltd.
Over 150 Offices in Scotland